**EITEM AR YR AGENDA: 17**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19 Mawrth 2012**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Gofynnir i Aelodau
  (i) ystyried yr adroddiad gan y Pwyllgor Safonau sydd ynghlwm;
  (ii) gadarnhau penodiad aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau.

## Cefndir

2 Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor yn darparu'r Awdurdod Tân ac Achub gydag adroddiad blynyddol o'i weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol.

3 Mae wythfed Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ynghlwm er ystyriaeth yr Aelodau.

4 Mae'r adroddiad yn manylu am faterion aelodaeth gan gynnwys diweddariad ar y cyfweliadau a gynhaliwyd yn ddiweddar i ddewis aelod annibynnol newydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau wedi i gyfnod Simon Fysh ar y Pwyllgor ddod i ben. Gofynnir i'r Awdurdod gadarnhau penodiad Tony Young, yr ymgeisydd llwyddiannus, fel Aelod Annibynnol newydd ar y Pwyllgor Safonau.

## Argymhelliad

5 Gofynnir i Aelodau
  (i) dderbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau;
  (ii) gadarnhau penodiad Tony Young fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

## Cefndir

Dyma wythfed adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac mae'n cynnwys y cyfnod o fis Ebrill 2011 hyd fis Mawrth 2012. Mae deddfwriaethau'n gofyn i'r Pwyllgor Safonau gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn darparu cylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r Awdurdod a goruchwylio polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn yr Awdurdod. Hefyd, pan fo deddf yn caniatáu, i dderbyn adroddiadau a chwynion am aelodau, gwneud neu oruchwylio archwiliadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod.

## Aelodaeth

Daeth cyfnod Simon Fysh ar y pwyllgor i ben ym Medi 2011, a gan mai dyna oedd ei ail dymor nid oedd yn gymwys i barhau ar y pwyllgor. Roedd ymgeiswyr o ansawdd uchel wedi'u cyfweld yn ystod ymgyrch recriwtio 2010 ac er mwyn arbed costau hysbysebu, penderfynwyd cysylltu â'r ymgeiswyr hynny i weld os oeddynt a diddordeb cael eu cyfweld eilwaith. Daeth y panel cyfweld at ei gilydd i gynnal y cyfweliadau ar y 1af o Fawrth. Tony Young oedd yr ymgeisydd llwyddiannus.

Felly, dyma'r aelodaeth newydd:

<u>Aelodau Annibynnol</u>
Celia Blomeley
Jane A Eyton-Jones
David Morris
Tony Young

<u>Aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub</u>
Cynghorydd Glyn Williams
Cynghorydd Merfyn Thomas

## Presenoldeb a materion a drafodwyd

Cafodd y Pwyllgor Safonau gyfarfod ar 8fed Mehefin 2011 ac roedd yr aelodau canlynol yn bresennol:

Simon Fysh
Celia Blomeley
David Morris

Adroddwyd fod yr Awdurdod nawr wedi cymeradwyo newid i'w weithdrefn cwynion cam 3 i alluogi aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau i fod yn rhan o'r panel fydd yn delio â chwynion cam 3 yn y dyfodol.

Cyn iddo orffen, mynychodd Simon Fysh gyfarfod o Fforwm Safonau Gogledd Cymru ac ym mis Hydref 2011 mynychodd Jane A Eyton-Jones Gynhadledd Safonau Cymru gyfan.

## Cwynion yn erbyn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub

Yn ystod cyfod yr adroddiad, ni wnaed unrhyw gwynion yn erbyn cynghorwyr yn eu rolau fel aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub. Felly, ni chyfeiriwyd unrhyw faterion i'r Pwyllgor eu harchwilio neu benderfynu.

## Goblygiadau Ariannol

Mae'r gyllideb ar gyfer y Pwyllgor Safonau yn dod o dan bennawd gwasanaethau pwyllgorau sydd ar gyfer holl gostau'r Awdurdod. Yn 2011/12, am y tro cyntaf, roedd aelodau annibynnol yn cael hawlio cydnabyddiaeth am eu gwaith ar y pwyllgor; cai'r cadeirydd hawlio £362.50 y flwyddyn a chai aelodau eraill hawlio £190 y flwyddyn. Gwnaeth y Cadeirydd hawlio ei lwfans o, ond ni hawliodd yr aelodau eraill. Hawliwyd cyfanswm o £40 am gostau teithio.

## Casgliad

Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi ei adroddiad.